# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion (CC(3)-09-09)

**Dyddiad: 11 Mehefin 2009**
**Amser: 13.00 - 15.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Janice Gregory, Ogwr (Cadeirydd)
Alun Cairns, Gorllewin De Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Stefan Sanchez, Clerc
Annette Millett, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Mandy Collins, Dirprwy Brif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Sue Thomas, Uwch Swyddog Datblygu Polisi, NACRO Cymru
Spike Cadman, Uwch Swyddog Datblygu Polisi, NACRO Cymru

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor i Stefan Sanchez, sy'n dychwelyd at Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### 2: Ymchwiliad i Gyfiawnder Ieuenctid

Tystiolaeth gan:

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

CC(3)-09-09 : Papur 1

2.1 Ymatebodd y tyst i gwestiynau gan y Pwyllgor.

### Camau gweithredu

Bydd y tyst yn cyflwyno tystiolaeth bellach am y gydberthynas rhwng yr awdurdodau sy'n barod i roi datganiad a'r awdurdodau sy'n llai parod i wneud hynny a'r canlyniad posibl ar gyfer cyfiawnder ieuenctid.

Bydd y tyst yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ynglŷn â'r materion cydraddoldeb sy'n effeithio ar wasanaethau gofal iechyd ar gyfer troseddwyr ifanc, er enghraifft merched a menywod ifanc, pobl sy'n siarad Cymraeg a phobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig.

Bydd y tyst yn gwneud gwaith ymchwil ychwanegol ynglŷn â pharhad y gofal iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n symud rhwng yr ystâd ddiogel a'r gymuned.

Darparu mwy o wybodaeth a data ynglŷn â'r rhesymau pam y mae plant yn cael eu rhoi mewn gofal yng Nghymru.

### Uned Troseddu Ieuenctid NACO Cymru

CC(3)-09-09 : Papur 2

2.2 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

### Camau gweithredu

Bydd y tyst yn cyflwyno copi o adroddiad y grŵp lobïo, y Pwyllgor Sefydlog ar Gyfiawnder Ieuenctid, sydd wedi ei leoli yn San Steffan ac sy'n edrych yn fanwl ar wahanol fodelau o ddarparu gwasanaethau, i'r Pwyllgor pan gaiff ei gyhoeddi.

Bydd y tyst yn cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn â'r dulliau amgen o gadw unigolion yn y ddalfa, gan gynnwys pa mor llwyddiannus ydynt, a'r ymwybyddiaeth o'r dulliau hyn.

### Sesiwn breifat

Cytunodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 10.37, y byddai eitem 3 yn cael ei chynnal yn breifat.

### 3: Hyrwyddo celfyddydau Cymru ar lwyfan y byd - ystyried yr adroddiad drafft

CC(3)-09-09 : Papur 3

3.1 Diwygiadau bychain i'w dosbarthu ac i'w cymeradwyo y tu allan i'r Pwyllgor.

### Papur i'w nodi

### Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2009.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2009**